



Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

2017 dccc 3

RHAN 2

Y DRETH A GWAREDIADAU TRETHADWY

PENNOD 3

GWAREDIADAU ESEMPY

9 Esemptiadau: cyffredinol

- (1) Mae'r Bennod hon yn darparu esemptiad rhag treth ar gyfer gwarediadau deunydd penodol a fyddai fel arall i'w trin fel gwarediadau trethadwy.
- (2) Nid yw gwarediad deunydd sy'n esempt rhag treth yn warediad trethadwy.
- (3) Yn y Bennod hon, mae cyfeiriadau at warediad deunydd yn cynnwys cyflawni gweithgarwch safle tirlenwi penodedig mewn perthynas â deunydd.

10 Gwarediadau lluosog deunydd ar yr un safle

Mae gwarediad deunydd yn esempt rhag treth i'r graddau—

- (a) y mae'n warediad deunydd sydd eisoes wedi ei gynnwys mewn gwarediad trethadwy—
 - (i) a wnaed ar safle tirlenwi awdurdodedig, a
 - (ii) yr oedd treth i'w chodi mewn cysylltiad ag ef, a
- (b) y'i gwneir ar yr un safle tirlenwi awdurdodedig â'r gwarediad trethadwy hwnnw.

11 Mynwentydd anifeiliaid anwes

- (1) Mae gwarediad deunydd yn esempt rhag treth—
 - (a) os yw'n warediad deunydd sy'n weddillion anifeiliaid anwes meirw (ac unrhyw gynhwysydd neu ddeunydd y cynhwysir y gweddillion ynddo), a dim arall, a
 - (b) os y'i gwneir ar safle tirlenwi awdurdodedig sy'n bodloni'r amod yn is-adran (2).
- (2) Yr amod yw na wnaed unrhyw warediadau tirlenwi ar y safle yn ystod y cyfnod perthnasol, heblaw am warediadau deunydd sy'n weddillion anifeiliaid anwes meirw (ac unrhyw gynhwysydd neu ddeunydd y cynhwysir y gweddillion ynddo), a dim arall.
- (3) Y cyfnod perthnasol yw'r cyfnod—
 - (a) sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r adran hon i rym, neu â'r diwrnod y daw'r safle yn safle tirlenwi awdurdodedig, pa un bynnag yw'r diweddaraf, a
 - (b) sy'n dod i ben yn union cyn y gwarediad a grybwyllir yn is-adran (1).

12 Pŵer i addasu esemptiadau

- (1) Caiff rheoliadau—
 - (a) creu esemptiad ychwanegol rhag treth,
 - (b) addasu esemptiad presennol, neu
 - (c) dileu esemptiad.
- (2) Caiff y rheoliadau ddarparu i esemptiad fod yn gymwys yn ddarostyngedig i amodau (er enghraifft, amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i ACC gael ei hysbysu cyn y gwneir gwarediad).
- (3) Caiff y rheoliadau ddiwygio unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth.